

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Salem Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 26. Wrth sôn am gapel Salem, anfonwn ein cofion gorau a'n dymuniadau am wellhad buan at weinidog eglwys Salem, y Parchg Ronald Williams, sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar.

Cymorth Cristnogol

Mai 14-20

Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd. Ac yn lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i lwyddo.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Ebrill 3: Pwyllgor Capel Ebeneser am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 9: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ebrill 9: Gwasanaethir mewn oedfa Fedydd am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog a chynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 2

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 9 (Sul y Blodau)

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 9: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Ebrill 5: Cyfarfod 'Y Ffordd' yn Festri Carmel am 7.00 o'r gloch.

Dydd Iau, Ebrill 6: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Sul, Ebrill 9: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Ebrill 2: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Ebrill 5: Cyfarfod 'Y Ffordd' am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 7: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 9: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ebrill 3: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 2

10.00 a.m. - Mr Norman Closs Parry

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - DIM OEDFA


Ebrill 9 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Y Gweinidog

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Y Parchg Euros Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 723: Dydd Sul, 02 Ebrill, 2017

Efengyl Marc

ynghrist â'i holl galon, a bu'r Ffydd Gristnogol yn gynhalieth iddo byth ers hynny.

O gael y bywyd newydd hwn, bu'r Beibl yn llyfr cwbl ganolog i fywyd David Suchet. Mae wedi recordio'r Beibl cyfan ar gyfres o gryno-ddisgiau. Nos Fawrth ddiwethaf, mewn cyfarfod arbennig yng Nghadeirlan St Paul yn Llundain, roedd yn darllen Efengyl Marc ar goedd. Am ddwy awr, bu'r gynulleidfa'n gwranddo arno'n darllen yr efengyl hon o'i dechrau i'w diwedd. Gallwch ei weld a'i glywed ar YouTube [<https://www.youtube.com/watch?v=JjOgcMOXvSc>].

Mae'r cyfuniad o ddawn llefaru'r actor gwych a'i ffydd gadarn yn gwneud y darlleniad cyhoeddus hwn yn arbennig iawn. Cyn cychwyn darllen, roedd Suchet yn cydnabod fod Efengyl Marc yn siwr o fod yn gyfarwydd i lawer iawn o'r bobl a oedd yn y Gadeirlan, fel yr oedd yn gyfarwydd iddo ef ei hun. Ond roedd, meddai, am geisio ei darllen y noson honno fel pe byddai'n ei darllen am y tro cyntaf erioed, ac roedd am i'w gynulleidfa ddychmygu ei bod hithau hefyd yn clywed hanes Iesu am y tro cyntaf er mwyn iddynt fedru rhyfeddu o'r newydd at y cyfan a ddywed yr efengyl hon am Iesu Grist. I Suchet, mae'r Beibl a'i neges yn wefreiddiol. Ar drothwy'r Pasg, boed i'r Beibl a'i dystiolaeth i'r Arglwydd Iesu Grist ein gwefreiddio ninnau.

Ddeugain mlynedd wedi i Agatha Christie gyhoeddi ei stori olaf am Hercule Poirot, mae'r ditectif o Wlad Belg i'w weld unwaith eto mewn dwy nofel newydd gan Sophie Hannah, *The Monogram Murders* a *Closed Casket*. Ydi, mae un o ditectifs enwocaf y byd llenyddol wedi cael bywyd newydd, a hynny'n golygu y gall pawb sy'n mwynhau gwaith Christie fynd ati o'r newydd i ddarllen amdano.

Mae mwy nag un actor wedi chwarae rhan Poirot ar y teledu a sgrin fawr y sinema. Ond yr actor y mae pawb yn ei uniaethu â Poirot yw David Suchet, a bortreadodd y ditectif ar y teledu am fwy nag ugain mlynedd. I lawer iawn ohonom, Suchet yw Poirot, a Poirot yw Suchet. Ond gwyddom nad dyna'r gwir. Gwelsom Suchet yn chwarae rhan sawl cymeriad arall ar wahanol adegau. Ac wrth reswm, gwyddom yn dda mai actor ydyw.

Os cafodd Poirot fywyd newydd trwy nofelau Hannah, mae David Suchet yn tystio iddo brofi bywyd newydd ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Roedd y Ffydd Gristnogol yn ddieithr iddo yn ei fywyd cynnar. Ond yn 1986, yn ddeugain oed, cafodd droedigaeth wrth iddo ddarllen, mewn ystafell westy, Lythyr Paul at y Rhufeiniaid. Wrth ddarllen y llythyr hwn, daeth i weld mai trwy ffydd yn Iesu Grist y daw iachawdwriaeth; a bu deall hynny yn drobwynt yn ei fywyd. Daeth i greu

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Yr wyt ti wedi cofnodi fy ocheneidiau, ac wedi costrelu fy nagrau – onid ydynt yn dy lyfr? Yna troir fy ngelynyon yn eu hôl yn y dydd y galwaf arnat. Hyn a wn: fod Duw o'm tu. Yn Nuw, yr un y molaf ei air, yn yr ARGLWYDD, y molaf ei air, yn Nuw yr wyf yn ymddiried heb ofni; beth a all pobl ei wneud imi? Gwneuthum addunedau i ti, O Dduw; fe'u talaf i ti ag offrymau diolch. Oherwydd gwaredaist fy mywyd rhag angau, a'm camau, yn wir, rhag llithro, er mwyn imi rodio gerbron Duw yng ngoleuni'r bywyd' (Salm 56:8–13).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Norman Closs Parry. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ni fydd oedfa heno.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am

10.30 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Pwyllgor Ebeneser

Cynhelir Pwyllgor Capel Ebeneser yn y festri am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Ebrill 3.



Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, Ebrill 5 am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i chi ddod atom.

Dyma'r ddwy thema ar gyfer y cyfarfod: 'Sut mae bod yn greadigol gyda'r Beibl?' a 'Sut all y Beibl fywhau ein heglwysi?'

Byddwn yn trafod rhai o'r cwestiynau a ganlyn nos Fercher.

Sut mae bod yn greadigol gyda'r Beibl?

1) Pryd oedd y tro diwethaf i'ch eglwys chi geisio gwneud rhywbeth gwahanol neu newydd, a beth oedd yr ymateb?

2) Ym mha ffyrdd mae eich eglwys wedi newid yn ystod eich cyfnod chi fel aelod?

3) A allwch chi feddwl am enghreifftiau o arbrofi mewn oedfaon sydd wedi eich cyffwrdd chi?

4) Ym mha ffordd mae eich adeiladau yn eich dal yn ôl rhag ceisio gwneud pethau newydd?

Sut all y Beibl fywhau ein heglwysi?

1) Sut allai technoleg fodern gyfoethogi'r profiad o fwynhau'r Beibl ac addoliad yn eich eglwys?

2) Oes gennych chi brofiad o ddilyn cwrs fel Alpha? Beth yw cryfderau a gwendid-au cyrsiau o'r fath?

3) Ydy oedfaon eich eglwys yn rhoi digon o gyfle i bobl gyfnwid profiadau a mynegi eu ffydd?

4) Ym mha ffyrdd y mae'r eglwysi wedi elwa o 'Blwyddyn y Beibl Byw' yn eich barn chi?

Casgliad y Genhadaeth

Mae Capel Coch yn trefnu casgliad blynyddol Cronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru y mis hwn. Gobeithiwn gael y cyfan erbyn pythefnos

i heddiw, dydd Sul y Pasg, Ebrill 16. Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd Llun y Pasg.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y Parchg John Treharne, Llwynhendy. Bydd gwahanol seminarau yn ystod y prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Trip Dwylo Pysur

Bydd criw Dwylo Pysur, Capel Carmel yn ymweld â Chlynnog, Pwllheli ac Aberdaron yn ystod gwyliau'r Pasg, ddydd Mercher, Ebrill 12.

Cynllun Efe

Ddydd Llun, Mawrth 10, caf ymweld â chynhadledd Gristnogol *Word Alive* yng ngwersyll Pontins ym Mhrestatyn i sôn am waith Cynllun Efe. Cawsom addewid o arian at ein gwaith o ran o'r casgliadau a wneir yn ystod yr wythnos.

LLANW

Cricieth

O nos Lun, Ebrill 17 hyd nos Iau, Ebrill 20

Cyfarfodydd y bore am 10.00 o'r gloch

Cyfarfodydd yr hwyr am 7.00 o'r gloch